

Gofalu am eich Patsys Prawf

Rydym wedi creu'r daflen hon i gynnig cyngor ar beth i'w wneud ar ôl gosod eich Patsys Prawf.

Cadwch y patsys prawf yn sych

Rhaid cadw'r man ar eich cefn lle mae'r patsys, neu lle maen nhw wedi bod, yn sych tan ar ôl eich apwyntiad olaf. Peidiwch â chael cawod yn ystod y cyfnod hwn. Gallwch gymryd bath bas cyn belled nad yw'n rhy boeth na stemllyd.

Osgoi Chwaraeon

Dylid osgoi unrhyw ymarfer corff sy'n cynnwys symud y breichiau neu chwysu gormodol. Ni ddylai gwaith fod yn broblem.

Patsys yn dod yn rhydd

Gofynnwch i rywun wirio bod eich patsys wedi'u glynu'n dda ac yn y lle cywir. Os ydyn nhw'n dechrau dod yn rhydd, dylid eu hail lynu gyda'r tâp a ddarperir.

Dillad

Rydym yn eich cynghori i wisgo hen ddillad neu rywbeth tywyll, er enghraifft, bra, fest, crys neu flows, tra byddwch yn gwneud y prawf patsys. Gall y feiro a ddefnyddiwn staenio'ch dillad a gall rhai o'r sylweddau a ddefnyddir yn y prawf hefyd ollwng trwy'r stribed prawf a staenio.

Gwisgwch fest neu grys-T yn y gwely: bydd hyn yn helpu i atal y patsys rhag dod yn rhydd yn y gwely.

Y darlleniadau

Bydd y patsys a osodwyd heddiw yn cael eu tynnu yn yr apwyntiad clinig ddydd Mercher, ac weithiau gwneir profion pellach. Os byddwn yn gofyn i chi dynnu'r patsys gartref, tynnwch luniau gan ddefnyddio dyfais symudol (ffôn symudol neu

ddyfais glyfar) o'ch cefn a'ch breichiau, os ydyn nhw wedi eu gosod yno, ar ôl i'r patsys gael eu tynnu. (Arhoswch 5-10 munud ar ôl tynnu'r patsys cyn tynnu'r lluniau). Efallai y bydd y croen wedi afliwio. Achosir hyn gan rai o'r cemegau prawf a ddefnyddiwn.

Eich ymweliad olaf

Yn ystod eich ymweliad olaf, bydd y meddyg yn rhoi canlyniadau eich profion i chi a byddwch yn derbyn unrhyw daflenni gwybodaeth perthnasol. Bydd y meddyg hefyd yn eich helpu a'ch cynghori ynglŷn â'ch problem croen a'ch triniaeth os na fydd unrhyw alergeddau'n cael eu canfod. Bydd y canlyniadau'n cael eu hanfon at y meddyg a'ch cyfeiriodd i gael y Prawf Patsys ac, os oes angen, byddwch yn cael eich cyfeirio'n ôl at y meddyg hwnnw ar gyfer parhau â'ch gofal. Bydd eich meddyg teulu hefyd yn cael gwybod.

Weithiau bydd oedi cyn derbyn canlyniad positif: -

Os byddwch yn profi adwaith newydd yn ystod y bythefnos ar ôl eich Profion Patsys ac angen cyngor pellach, ffoniwch y Clinig Profion Patsys ar:- 01633 - 238962.

Am gyngor pellach, ffoniwch:

01633 238962 neu 01633 234963 a siaradwch ag un o'r nyrsys profion patsys.

“Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg /This document is available in English ”